COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 20FED GORFFENNAF 2015 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd Dr Sibani Roy, (Cadeirydd) Y Cynghorwyr W. Bagnall, J. Davies, Mrs L. Edwards, R. Foreman, D. Griffiths, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, A. Khan, Mrs H. Meredith, A. Pearson, J. Pearson, D. Porter, J. Reaney, G. Ward, C. Wood MBE.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Nifer o'r cyhoedd

92/15 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs V. Perry, P. Richards, Mrs V. Smith Y.H., S. Taylor ag S. Williams.

93/15 Cyhoeddiadau'r Maer:

Rhoddodd y Maer cyhoeddiad byr am ddigwyddiad ar Ffordd yr Orsaf ar ddydd Llun, 10fed Awst o 12-2pm i groesawu Sgwad Rygbi Cymru i Fae Colwyn am gwrs hyfforddiant dau ddiwrnod.
Rhoddwyd manylion hefyd am gyfnod gwyliau'r Clerc a'r Clerc Cynorthwyol.

Penderfynwyd anfon dymuniadau gorau i'r Clerc Cynorthwyol am adferiad buan.

94/15 Datgan Cysylltiadau: Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

95/15 Cofnodion:

a. ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8fed Mehefin 2015.***

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
- ***i.*** Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 16eg Mehefin 2015.
- ***ii*** Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 1af Gorffennaf 2015 (Drafft)
- ***iii*** Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 7fed Gorffennaf 2015 (Drafft).

96/15 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hyn :

a. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion a ganlyn:

i. **Cofnodion 65/15 ac 86/15(b) – Pier Victoria Colwyn (PVC):**

Cyflwynodd y Clerc adroddiad am ganlyniad cyfarfod diweddar Grŵp Llywio PVC, yn dilyn yr adborth ar lafar a gafwyd gan Gronfa Loteri Treftadaeth.

Penderfynwyd cadarnhau argymhellion yr adroddiad hwnnw yn amodol ar ddau o fan newidiadau, fel y maent yn ymddangos isod:

1. ***Cefnogi Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn (YPVC) mewn unrhyw ymgais am gyllid.***
2. ***Parhau gyda chynrychiolaeth y Cyngor Tref ar, a chefnogaeth gan Swyddogion i, Grŵp Cyd-lywio, a fydd yn cyfarfod ag aelodau Bwrdd Prosiect y Pier, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i:***
    a. ***Trafod yr adborth a gafwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri (CTL) ar y pryderon a gafodd CBSC gyda'r cais cyntaf i CTL i weld a chafodd y rhain eu goresgyn.***
    b. ***Cydweithio ar unrhyw brosiect treftadaeth.***
3. ***Gwahodd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd YPVC i ddod i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i gyfarfod yr aelodau ac i roi unrhyw adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf am yr uchod.***
4. ***Anfon llythyr arall at CADW (gyda chopïau i Weinidogion priodol Llywodraeth Cymru) i amlinellu'r adborth a gafwyd gan CTL ac i amlygu'r effaith cafodd y diffyg cefnogaeth gan GBSC ar y cais gan YPVC a'r Cyngor Tref i ailddatblygu'r Pier.***

Gofynnodd yr aelodau canlynol i'r cofnod ddangos iddynt bleidleisio yn erbyn yr argymhellion:
Cynghorydd B. Bagnall; Cynghorydd J. Davies

ii **Cofnod 67/15(b)(ii) – Hyrwyddwr Treftadaeth:**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried penodi Hyrwyddwr Treftadaeth er mwyn gwella'r cysylltiadau rhwng y Cyngor Tref a THI a Grwpiau Treftadaeth.

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Don Porter i fod yn Hyrwyddwr Treftadaeth er mwyn gwella'r cysylltiadau gyda'r THI a grwp(iau) treftadaeth leol.

iii. **Cofnod 75/15(b) – Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedau:**

Penderfynwyd mewn egwyddor, i gefnogi creu Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedau i symud ymlaen gyda mentrau adnewyddu fel paratoad ar gyfer yr adeg pan ddaw rhaglenni THI a VVP i ben yn y blynyddoedd nesaf.

iv. **Cofnod 82/15(a) – Grant(iau) Bach:**

Penderfynwyd cadarnhau'r argymhelliad i wrthod y cais gan Grŵp Cyfranogi Cleifion Meddygfa Cadwgan.

v. **Cofnod 87/15(a) - Gwasanaethau Cofrestriad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

Penderfynwyd cefnogi'r bwriad i gyflwyno'r gwasanaeth o Landudno.

b ***Penderfynwyd nodi gweddill penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

97/15 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

a. Adolygiad o Brif Gynllun Byw yn y Bae: Fe nodwyd bod Rob Dix yn awyddus i gyfarfod y Cyngor tua diwedd mis Awst / dechrau mis Medi i drafod newidiadau arfaethedig i'r Prif Gynllun cyn rhyddhau dewisiadau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

b. Grŵp Llywio Digwyddiadau Cymunedol: Fe nodwyd bod grŵp i gael ei greu i rannu gwybodaeth / cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau cymunedol.

Penderfynwyd penodi'r Clerc ac / neu'r Clerc Cynorthwyol i fynd i gyfarfodydd hyd nes y penodir Swyddog Digwyddiadau lleol.

98/15 <u>Adnewyddu Yswiriant:</u>

Penderfynwyd gohirio ystyried yr amcan brisiau i adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor tan ddiwedd y cyfarfod, er mwyn gwahardd y cyhoedd a'r wasg (amcan brisiau cyfrinachol).

99/15 <u>Darren Millar AC:</u>

Cyflwynodd y Clerc cais iddo gael dod i gyfarfod yn y dyfodol ac fe gafwyd trafodaeth am faterion yn ymwneud ac iechyd, oherwydd ei swyddogaeth fel Gweinidog Cysgodol Iechyd.

Penderfynwyd gwahodd Mr Millar i ddod i gyfarfod y Cyngor ar ddydd Llun 7^{fed}M edi (y dewis orau) neu'r Cyfarfod Arbennig cynharach am yr adolygiad o'r Prif Gynllun, os nad yw'r dyddiad ym mis Medi yn gyfleus.

100/15 <u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC):</u>

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am ddigwyddiadau / adolygiadau ymgynghori cyhoeddus i roi adborth i'r Bwrdd.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth oddi wrth BIPBC.

101/15 <u>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon am 2014/15 er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'i nodi.

102/15 <u>Un Llais Cymru:</u>

a. ***Penderfynwyd derbyn y manylion am Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru sydd i'w gynnal ar 3^{ydd}Hydref 2015, a nodi bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ardal yn cael ei gynnal ar 28^{ain}Gorffennaf.***

103/15 <u>Materion Cyfrinachol:</u>

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 a Rheol Sefydlog rhif 68, fe BENDERFYNWYD, oherwydd cyfrinachedd y busnes sydd i'w drafod, roedd yn fuddiol i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod dros dro.

a. Adnewyddu Yswiriant (Mater a Ohiriwyd):

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried, amcan brisiau manwl a dderbyniwyd gan ddau gwmni, yn cynnwys un gan brocer sy'n arbenigo mewn polisïau cynghorau lleol ac un gan gwmni yswiriant presennol y Cyngor. Fe nodwyd bod trydydd brocer wedi hepgor cyflwyno amcan bris. Roedd yr amcan brisiau y gofynnwyd amdanynt yn seiliedig ar swm yswiriant yr adeilad presennol a'r adeiladau estynedig, oherwydd y trosglwyddiad o'r rhydd-ddaliad sydd i ddod am weddill y safle.

Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau bold cwmni presennol y Cyngor, Zurich, yn awyddus i gadw busnes y Cyngor ac wedi gofyn am gael gwybod os dderbyniwyd amcan bris rhatach. Canlyniad hyn oedd i gytundeb tair blynedd tymor hir cael ei dderbyn yn hwyr heddiw.

Penderfynwyd derbyn amcan bris Zurich i adnewyddu yswiriant y Cyngor fel y mae yn ymddangos yn y rhestr a gyflwynwyd, am gytundeb newydd hirdymor o dair blynedd am bris o £3,817.82, yn cynnwys IPT (£3,611.81 cyn y codiad yn yswiriant yr adeiladau).

b. Enwebiadau ar gyfer Rhestr Anrhydedd Pen-blwydd y Frenhines 2016:

Cyflwynodd y Clerc cynnig i'w ystyried gan y Cynghorydd Mrs V. Perry am enwebiad gyda chais am lythyr o gefnogaeth gan y Cyngor Tref.

- Datganodd y Cynghorydd J. Reaney cysylltiad personol ag un all ragfarnu, gan ei fod yn bartner yn y cwmni a greodd y wefan newydd y cyfeiriwyd ato yn yr enwebiad. Gadawodd y cyfarfod tra bo'r mater yn cael ei ystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Bagnall ei fod yn poeni bod llawer o'r gwaith ymchwil eisoes ar gael i'w weld mewn mannau eraill (yn cynnwys adnoddau ar-lein).

Am nad oedd yn bosibl i gadarnhau hyn yn y cyfarfod ac oherwydd y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau oedd yn prysuro agosáu, fe BENDERFYNWYD rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc cydlynu gyda'r Cynghorwyr Bagnall a V. Perry a phenderfynu a dylid symud ymlaen gyda'r enwebiad (yn seiliedig ar unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddaw i law yn ychwanegol i'r hyn sydd eisoes ar gael). Fe nodwyd bydd angen nifer o lythyrau o gefnogaeth os bydd yr enwebiad i fynd ymlaen.

Daeth y cyfarfod i am 7.25 p.m.

……. Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 20TH JULY 2015

PRESENT: The Mayor, Cllr Dr Sibani Roy
Cllrs: W Bagnall; J Davies; Mrs L Edwards; R Foreman; D Griffiths; Mrs L Griffiths; Mrs M Jones; A Khan; Mrs H Meredith; A Pearson; J Pearson; D Porter; J Reaney; G Ward; C Wood MBE

OFFICER: Mrs C J Earley, Town Clerk

IN ATTENDANCE: Several members of the public.

92/15 Apologies for Absence:

The Chairman opened the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: Mrs V Perry, P Richards, Mrs V Smith, S Taylor, S Williams

93/15 Announcements:

The Mayor gave a brief announcement about an event on Station Road on Monday 10th August from 12-2pm to welcome the Welsh Rugby Squad to Colwyn Bay for a two day training camp.
Members were also informed of forthcoming leave for the Clerk and Assistant Clerk.

Resolved to send the Assistant Clerk best wishes for a speedy recovery.

94/15 Declarations of Interest: Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

95/15 Minutes:

a. ***Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of a meeting of the Council, held on 8th June 2015.***

b. ***Resolved to receive a copy of the minutes of the following meetings:***
i. The General Purpose & Planning Committee, held on 16th June 2015.
ii. The Policy & Finance Committee, held on 1st July 2015 (Draft).
iii. The General Purposes & Planning Committee, held on 7th July 2015. (Draft)

96/15 Matters Arising from Those Minutes:

a. Members were asked to consider and endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:

i. **Min. 65/15 & 86/15(b) - Colwyn Victoria Pier (CVP):**

The Clerk submitted a report on the outcome of a recent meeting of the CVP Steering Group, following receipt of verbal feedback from the HLF.

Resolved to endorse the recommendations in that report, subject to two minor amendments, as detailed below:

1. ***To support Colwyn Victoria Pier Trust (CVPT) with any further bid(s) for funding.***
2. ***To continue the Town Council's representation on, and Officer support for, the joint Steering Group, which will be meeting with members of the CCBC Pier Project Board to:***
    a. ***Discuss the feedback received from the HLF and the concerns CCBC had with the initial HLF bid to see if any/all of these could be overcome.***
    b. ***Work together on any heritage project***
3. ***To invite the new Chair and Vice-Chair of CVPT to attend a future meeting of the Council to meet members and give any update on the above.***
4. ***To send a further letter to Cadw (copied to relevant WG Ministers) to outline the feedback received from the HLF and highlight the impact that the lack of support from CCBC has had on the bid by CVPT and the Town Council to redevelop the Pier.***

The following members asked that it be recorded that they voted against the recommendations:
Cllr B Bagnall; Cllr J Davies

ii. **Min. 67/15(b)(ii) – Heritage Champion:**

Members were asked to consider the appointment of a Heritage Champion to improve links between the Town Council and the THI and Heritage groups.

Resolved to appoint Cllr Don Porter as Heritage Champion, to improve links with the THI and local heritage group(s).

iii. **Min. 75/15(b) – Community Development Trust:**

Resolved to support, in principle, the formation of a Community Development Trust to take forward regeneration initiatives in preparation for the end of the THI and VVP programmes in the next few years.

iv. **Min.82/15(a) – Small Grant(s):**

Resolved to endorse the recommendation to decline the application from Cadwgan Surgery Patient Participation Group.

v. **Min.87/15(a) – CCBC Registration Services:**

Resolved to support proposals to deliver the service from Llandudno.

b. ***Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.***

97/15 CCBC:

a. Bay Life Masterplan Review: It was noted that Rob Dix would like to meet with the Council in late August / early September to discuss proposed revisions to the Masterplan prior to releasing options for public consultation.

b. Community Events Steering Group: It was noted that a group is being set up to share information/support for community events.

Resolved to appoint the Clerk and/or Assistant Clerk to attend meetings, until such time as a local Events Officer is appointed.

98/15 Insurance Renewal:

Resolved to defer the consideration of quotations for the renewal of the Council's insurance policy to the end of the meeting, to enable the public and press to be excluded (confidential quotations).

99/15 Darren Millar, AM:

The Clerk submitted a request to attend a future meeting and a discussion ensued about health issues, due to his role as Shadow Health Minister.

Resolved to invite Mr Millar to attend either the Council meeting on Monday 7th September (preferred option), or the earlier Special Meeting about the Masterplan review, should the September date not be convenient.

100/15 Betsi Cadwaladr University Local Health Board: T

The Clerk submitted notice of public consultation events/ surveys to give feedback to the Board.

Resolved to receive the correspondence from BCUHB.

101/15 Public Services Ombudsman for Wales:

The Clerk submitted, for information, the Ombudsman's Annual Report for 2014/15.

Resolved to receive and note the report.

102/15 One Voices Wales:

a. Resolved to receive details of the OVW Annual Conference, to be held on 3rd October 2015, and note that the next Area Committee meeting will be held on 28th July.

103/15 Confidential Business:

In accordance with the Public Bodies (Admission to Meetings Act) 1960 and with Standing Order no.68, it was RESOLVED that, in view of the

confidential nature of the business about to be transacted, it was advisable in the public interest that the press and public be temporarily excluded and they were instructed to withdraw.

a. Insurance Renewal (Deferred Item):

The Clerk tabled, for consideration, detailed quotations received from two companies, including one from a broker specialising in local council policies and one from the Council's existing insurer. It was noted that a third broker had declined to submit a quotation. The quotations requested had been based on both the existing and projected buildings sum insured, due to the impending transfer of freehold for the remainder of the site.

The Clerk advised members that the council's existing insurer, Zurich, was keen to retain the Council's business and had therefore asked to be informed should a cheaper quotation be received. This had resulted in a lower three year long term agreement rate being received late today.

Resolved to accept the quotation from Zurich and renew the Council's cover, as detailed in the submitted schedule, at a new long-term three year agreement price of £3,817.82, inclusive of IPT (£3611.81 prior to increase in buildings cover).

b. Nominations for the Queen's Birthday Honours list for 2016:

The Clerk submitted, for consideration, a proposal for a nomination from Cllr Mrs V Perry with a request for a letter of support from the Town Council.

- Cllr J Reaney declared a personal and prejudicial interest, being a partner of the company that had built the new website referred to in the nomination. He withdrew from the meeting during consideration of this matter.

Cllr Bagnall advised stated concern that much of the research done was already available to view elsewhere (including other on-line sources).

As it was not able to clarify this at the meeting, and due to the rapidly approaching closing date for nominations, it was RESOLVED to delegate authority to the Clerk to liaise with Cllrs Bagnall and V Perry and to determine if the nomination should proceed (based on whether any additional information was now available, over and above that already held). It was noted that several letters of support would be required, if the nomination were to proceed.

The meeting closed at 7.25 p.m.

……. Chairman